



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

24 MAI 2023

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gyflwyno cylch gorchwyl drafft i aelodau'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â Adolygu trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol.

2.0 Cefndir

2.1 Ar 23 Tachwedd 2022, caniatiodd aelodau'r Cyd-bwyllgor i'r gwasanaeth symud ymlaen i adolygu ei drefniadau gweithredu a'i strwythur staffio presennol.

2.2 Wrth i GwE barhau i gefnogi ysgolion yn y cyfnod wedi'r pandemig, mae'n amserol adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau ein bod yn parhau i esblygu a datblygu er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol ar ôl Covid.

3.0 Materion i gael sylw

3.1 Ynglwm mae'r cylch gorchwyl drafft sy'n amlinellu:

- y cefndir a'r cyd-destun
 - sail resymegol
 - nodau ac amcanion
 - materion i gael sylw
 - ffynonellau gwybodaeth i lywio'r adolygiad
 - amseriad; a'r
-

- tîm arfaethedig i gynnal yr adolygiad.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r cylch gorchwyl.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw fodel gweithredu yn cael ei ariannu trwy adnoddau sydd gennym eisoes ac i'r dyfodol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Bydd GwE yn dilyn gweithdrefnau'r Awdurdod Lletyol yng nghyd-destun unrhyw ailstrwythuro.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorir yn llawn â staff GwE yn ystod y broses adolygu.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Cylch gorchwyl drafft

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Nodir y bwriad i fynd ati i adolygu'r strwythur staffio a chadarnhaf fod cymeradwyo strwythur staffio GwE yn un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ei hun.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn croesawu'r bwriad i adolygu trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE yn nghyd-destun sefyllfa sy'n newid yn barhaus. Bydd swyddogion y gwasanaethau Cyllid yn cynorthwyo GwE gyda'r gwaith hwn fel bo'r angen, ac yn sicrhau bod GwE yn parhau i weithredu'n unol â'r adnoddau sydd ar gael iddo.
